Ariannwyd y prosiect gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a'i phwrrpas yw ymgysylltu a gweithio gyda chyflwynwyr a sefydliadau i gefnogi, hwyluso a chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg ac i ysgogi cwmnïau a sefydliadau i ddefnyddio'r Gymraeg fel arf i hybu gweithgareddau a datblygiad economaidd o fewn yr ardal. Peilot dwy flynedd yw'r prosiect a chroesawyd Huw Rowlands fel ein Swyddog Y Gymraeg mewn Busnes newydd ym mis Mai 2017. Mae Huw wedi bod wrthi'n cydweithio gyda Swyddogion Menter Iaith Sir Caerffili i ddatblygu'r gwaith angenreidiol o fentora a galluogi busnesau i weithredu mewn ffordd newydd gan ddefnyddio'r iaith Gymraeg a fydd o gymorth i gynyddu busnes a chynnal yr economi lleol.

Erbyn diwedd y prosiect, mae Huw wedi gweithio gyda dros 40 o busnesau lleol trwy eu cefnogi'n dwys gyda defnydd o'r Gymraeg ar draws eu busnesau gan gynnwys marchnata, recriwtio a brandio. Mae Huw hefyd wedi addasu ein cynllun Y Ffordd i

Ddwylieithrwydd sy'n weithredol o fewn y sector gofal plant gan ddatblygu fersiwn ar gyfer busnesau. Yn ogystal â chynnig cefnogaeth dwys, mae'r prosiect hefyd yn gweithio'n agos â rhwydweithiau a fforymau busnes eraill ar draws y sir ac yn targedu sectorau penodol megis y sector bwyd a diod. Mae'n bosib hefyd y welwch mwy o Gymraeg ar rai o brif strydoedd siopa'r Sir wrth i Huw ddosbarthu arwyddion agor a chau dwyieithog a deunyddiau eraill sy'n croesawu cwsmeriaid i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae Huw hefyd wedi bod wrthi'n cysylltu ei waith gyda'r Siarter Iaith ymyst ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir. Fel rhan o'r prosiect, mae Huw wedi bod yn ymweld ag ysgolion a'u gwahodd nhw i ymuno ag ef wrth iddo ddosbarthu deunyddiau i fusnesau.



**Yn Ebrill 2019, rydym yn ddiolchgar iawn y bydd y prosiect yn medru trosglwyddo draw i'r prosiect cenedlaethol Cymraeg Byd Busnes, sef bartneriaeth rhwng y Menterau Iaith a Llywodraeth Cymru. Fe fydd Huw yn un o rwydwaith o 12 swyddog ar draws Cymru yn cefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.**

## Menterau Iaith Cymru

Mae Menter Caerffili yn aelod o rwydwaith cenedlaethol Menterau Iaith Cymru sy'n cefnogi'r 22 o Menterau Iaith trwy amryw o weithgareddau a meysydd, gan gynnwys marchnata a chyfathrebu, hyfforddiant a dylanwadur er budd y Gymraeg. Yn llorweddol i'r rhwydwaith mae'r egwyddor o rannu gwybodaeth, profiadau, syniadau ac adnoddau rhwng y Menterau Iaith a phartneriaid eraill ar draws Cymru.

Rydym hefyd yn datblygu prosiectau cenedlaethol a rhanbarthol mewn partneriaeth â'r Menterau Iaith a chyrrf eraill. Ym mis Hydref 2018, etholwyd Lowri Jones, Prif Swyddog Menter Caerffili yn Gadeirydd Menterau Iaith Cymru am gyfnod o ddwy flynedd.

## Nôd Answadd Elusen Dibynadwy

Yn ystod y flwyddyn, bu staff a Bwrdd Rheoli Menter Caerffili yn gweithio'n galed er mwyn anelu at gyflawni Nôd Answadd sy'n arbennig ar gyfer y sector wirfoddol. Fe fydd y Fenter yn derbyn asesiad dau ddiwrnod yn Rhagfyr 2019 er mwyn dynodi a yw'r Fenter wedi ateb holl gofynion y Nôd. Mae'r Nôd yn ystyried holl prosesau a llywodraethiant y Fenter yn ogystal â'r ffordd rydym yn darparu gwasnaethau ac yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Bydd yr asesiad yn gyfle i ddangos yr holl gwaith da sy'n digwydd yn fewnol yn y Fenter ac o fewn ein gwasanethau i'r cyhoedd. Fe fydd y rhwydwaith cyfan o Fentrau Iaith yn cwblhau'r un broses.

## E@chlysur

Rydym yn gweithredu system e-bost sy'n dosbarthu gwybodaeth am wasanaethau'r Fenter yn ogystal â gweithgareddau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog eraill yn lleol. Gellir cofrestru i dderbyn e-byst ar ein gwefan. Mae echlysur yn ffynhonnell wych o hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg yng Nghaerffili yn rhad ac am ddim.

Menter Iaith Sir Caerffili  
Suite 1  
St. Margaret's Park  
Pengam Road  
Aberbargoed  
Cf81 9FW

01443 820913  
gwybodaeth@mentercaerffili.cymru  
Registered Charity: 1105172  
Company Limited by Guarantee 5096968  
[www.mentercaerffili.cymru](http://www.mentercaerffili.cymru)

# Fforwm Iaith Sir Caerffili

Mae'r Fenter yn cydlynú ac yn arwain y Fforwm hwn o fudiadau, cymdeithasau ac unigolion sy'n gweithredu'n ddwyieithog neu trwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriad y Fforwm yw cynnig cyfle i fudiadau lleoli gydweithio, rhannu arfer da a datblygu llais cryf lleol dros y Gymraeg. Bu'r Fforwm yn hollbwysig wrth drefnu Ffiliffest eleni a thrafodir amrywiaeth o bynciau gan gynnwys pwysigrwydd gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Teimlwn yn ffodus iawn bod gennym Fforwm iaith weithgar gyda chynrychiolaeth eang o fudiadau a

phartneriaid gan gynnwys Urdd Gobaith Cymru, Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Merched y Wawr, Coleg y Cymoedd, Canolfan Dysgu Cymraeg Gwent, Canolfan Gristnogol Siloh, Papur CwmNi, RhAG a Heddlu Gwent. Gobeithir y bydd y Fforwm yn parhau i ddatblygu ac yn cynnig cyfle i gyfleo safbwyt cryf a dylanwadol dros y Gymraeg yn lleol.

## Ffônyfr Menter Caerffili


Daeth y ffônyfr gan Fenter iaith Sir Caerffili a lansiwyd yng Ngorffennaf 2017 er mwyn hyrwyddo'r busnesau a mudiadau hynny yn lleol sy'n medru cynnig gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Bwriad y llyfr yw cefnogi siaradwyr a dysgwyr Gymraeg lleol i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau pob dydd a phwysleisio gwerth economaidd y Gymraeg i'r ardal. Yn aml, dywedir nad oes unrhyw fusnesau'n lleol sy'n medru cynnig gwasanaethau cyfrwng Gymraeg. Dengys y llyfr bod amrywiaeth sylwedol o wasanaethau cyfrwng Gymraeg ar gael yn lleol. Mae'n bosib ymweld â meddyg, deintydd ag optegydd sy'n siarad Gymraeg yn ogystal â chael car wedi ei drwsio gan fecanig sy'n siarad Gymraeg.

Fe fydd y ffônyfr yn galluogi pobl leol i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn cymunedau gwahanol ac o fewn elfennau amrywiol eu bywydau. Yn ogystal, y gobaith yw y bydd y llyfr yn dangos i siaradwyr Gymraeg ifanc yn lleol bod galw cynyddol am eu sgiliau iaith Gymraeg yn lleol a beth yw gwerth y sgiliau hynny. Pan ddechreuodd prosiect newydd Menter Caerffili sydd am gefnogi busnesau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg roedd y ffônyfr yn ddefnyddiol wrth i ni ddefnyddio ymchwil y ffônyfr i gefnogi ein Swyddog Busnes. Bu'n bosib i weld faint o fusnesau yn Sir Caerffili sydd yn defnyddio'r Gymraeg. Mae hyn yn golygu gall staff fod yn ddysgwyr neu yn rhugl ond yn hapus ac yn frwd dros yr iaith Gymraeg.

Fel unrhyw adnodd tebyg mae'r ffônyfr allan o ddyddiad yn barod gyda phobl yn cysylltu er mwyn ychwanegu eu manylion yn y llyfrynn. Mae'r Fenter felly yn apelio at bobl leol, os ydych yn nabod unrhyw gwmni sydd yn defnyddio'r iaith Gymraeg boed yn gwmni gydag un aelod o staff neu'n gwmni sydd â nifer o siaradwyr Gymraeg, gofynnwch iddynt gysylltu gydag ein Swyddog Busnes. E-bostiwch huwrowlands@mentercaerffili.cymru os hoffech chi neu gwmni bod yn rhan o ddatblygiad y ffônyfr.

Os hoffech chi dderbyn copi o'r ffônyfr mae nifer wedi dosbarthu dros y Sir i lefydd cyhoeddus megis canolfannau hamdden a llyfrgelloedd. Os ydych yn methu dod o hyd iddo neu hoffech dderbyn nifer i ddosbarthu allan, eto cysylltwch gyda'r Fenter a

fyddwn yn hapus i'ch helpu. Hoffai'r Fenter i bobl leol ddefnyddio'r busnesau yma a defnyddiwr y Gymraeg o fewn y sefydliadau sydd yn y ffônyfr i ddangos iddynt fod y Gymraeg yn fantais fawr i unrhyw gwmni neu fusnes yng Nghaerffili.



# Ffair Nadolig 2018

**U**nwaith eto eleni, cynhaliwyd Ffair Nadolig llwyddiannus dros ben ar Dachwedd 24ain. Daeth dros 1000 o bobl i'r Ffair yn Llancaiach Fawr er mwyn prynu anrhegion Nadolig oddi wrth yr amrywiaeth eang o stondinbau a busnesau lleol, i fwynhau perfformiadau gan Martyn Geraint ac ysgolion y sir yn ogystal â chymryd rhan mewn llu o weithgareddau celf a chrefft a chael sgwrs gyda Siôn Corn! Mae'r Ffair erbyn hyn yn ddigwyddiad llwyddiannus tu hwnt gyda dros 25 o fusnesau lleol yn gwerthu nwyddau. Mae'r Fenter yn ddiolchgar iawn i bawb a ddaeth i ymweld â'r Ffair, i'r Ysgolion am ddod i berfformio, i'r stondinwyr am ddod â chrefftau hyfryd ac i'r gwirfoddolwyr a'r staff am eu gwaith caled.



## Cinio Gwyl Ddewi 2018

**A**r Fawrth 1af, cynhaliwyd dathliad Gwyl Ddewi llwyddiannus iawn yng Nghastell Caerffili ar y cyd a Rhwydwaith Bwyd a Diod Cyngor Caerffili. Bu'r cinio yn dilyn ffair bwyd, diod a chrefftau llwyddiannus yn ystod y dydd yn y Neuadd Fawr lle bu arddangosfa wych o gynnrych lleol. Cafwyd cyfle yn ystod y noson i flasu esiamplau o gynnrych gorau'r sir yn ystod y cinio tri chwrs yn ogystal a mwynhau adloniant gan Dim Problem, Trio ac Aisha Palmer. Bu staff Menter Caerffili yn cydweithio'n arbennig gan weini a chydlynu trefniadau'r noson.



## Strategaeth Cymraeg Pum Mlynedd Sir Caerffili 2017-2022

**M**ae'r flwyddyn ddiwethaf wedi gweld ail flwyddyn y Strategaeth wrth i drawstoriad o bartneriaid ac adrannau amrywiol Cyngor B.S.Caerffili cydweithio er mwyn gwireddu amcanion y Strategaeth. Lansiwyd y Strategaeth yn ffurfiol gan Y Gweinidog Dysgu Gydol Oes a'r Gymraeg, Alun Davies yn Ffiliffest ym mis Mehefin 2017 ac ers hynny, mae partneriaid wedi bod yn cydweithio'n agos ar nifer o brosiectau newydd.

Teimlwn fod y Strategaeth yn cydnabod y gwaith sylweddol sy'n digwydd eisoes yn ogystal a chynnig her i ni i gyd er mwyn cynyddu'r nifer o gyfleoedd a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn lleol. Fel Fforwm laith, rydym yn arbennig o awyddus i weld cynydd yn y nifer o wasanaethau sydd ar gael yn lleol i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd trwy Gymraeg er mwyn cwrdd a'r galw cynyddol yn lleol. Wrth ddatblygu'r Strategaeth, roeddem hefyd yn awyddus i ddatblygu targedau a fyddai'n cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gynhyrchu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, cytunodd y Fenter i gynnal ymarferiad siopa cudd ar ran y Cyngor er mwyn profi rhai o'i gwasanaethau derbynfa cyfrwng Cymraeg gan gynnwys llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a phrif swyddfeydd. Bu'r ymarferiad yn ddefnyddiol iawn ac yn tanlinellu'r gwaith sylweddol sydd wedi digwydd dan arweiniad Uwch Swyddog Polisi (Cydraddoleb a'r Gymraeg) y Cyngor, Anwen Cullinane wrth ddatblygu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg.

Ar ddiwedd Mawrth 2019, bu nifer o'r rhanddeiliaid yn adrodd ar gynnydd y Strategaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Strategaeth yn cynnig sylfaen cadarn a gweledigaeth strategol ar gyfer cynyddu defnydd y Gymraeg yn sir Caerffili ac edrychwn ymlaen at weld effaith y Strategaeth yn ystod y blynnyddoedd nesaf.

# Dysgwyr y Gymraeg

Mae darparu gweithgareddau i ddysgwyr y Gymraeg wedi bod yn flaenoriaeth i'r Fenter ers y cychwyn. Erbyn hyn mae gyda ni nifer sylweddol o ddysgwyr sy'n dibynnu ar y Fenter am gyfleoedd i fagu hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac i gwrdd â dysgwyr eraill. Rydym yn rhedeg boreau coffi wythnosol ar ddydd Mawrth a dydd iau, Sadyrnau Siarad yn fisol a dau Glwb Darllen yn fisol. Yn ogystal trefnwyd nifer o ddigwyddiadau yn arbennig ar gyfer dysgwyr yn ystod y flwyddyn megis nosweithiau cwis, teithiau cerdded a chylch cinio achlysurol. Yn ogystal, trefnwyd taith i ardal Sir Benfro gan ymweld ag ardal Porthmadog ym mis Mehefin er mwyn cynnig cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg yr ardal i ymweld ag ardal wahanol o Gymru wrth ddefnyddio'u Cymraeg. Mae'n bwysig nodi ein bod

wedi derbyn cefnogaeth ac ymrwymiad diffuant oddi wrth ddysgwyr y sir ers cychwyn y Fenter ac erbyn hyn mae grŵp craidd o ddysgwyr yn mynchyu pob gweithgaredd a gynigir. Mae'r Fenter hefyd yn gweithio'n agos â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Gwent wrth lunio ei raglen o gyfleoedd i ddysgwyr.



## Ffiliffest 2018

Unwaith eto eleni cynhaliwyd ein gŵyl haf cymunedol cyfrwng Cymraeg yng Nghastell Caerffili. Yn sgil ein partneriaeth gyda CADW bu'n bosib cynnal y diwrnod o fewn y lleoliad anhygoel yma. Yn ystod penwythnos cyntaf Mehefin 2018, cynhaliwyd diwrnod o weithgareddau a stondinâu ar gyfer y teulu cyfan gan gynnwys unwaith eto arddangosfa enfawr o ddawnsio gwerin gan ysgolion cynradd y sir. Ymwelodd dros 5000 o bobl â'r wyl yn ystod y diwrnod sy'n gynnydd unwaith eto a chafwyd cyfle i fwynhau perfformiadau gan Martyn Geraint a pherfformwyr lleol yn ogystal â mwynhau'r dawnsio. Am y tro cyntaf hefyd, cynhaliwyd Gig Ffiliffest yn hwyrach yn y noson fel digwyddiad ar wahân, mewn partneriaeth â'r Selar. Bwriad y gig oedd cynnig cyfle i fwynhau rhai o bandiau mwyaf blaengar a newydd Cymru yn lleol gan gynyddu ymwybyddiaeth o

gerddoriaeth cyfrwng Cymraeg. Cafwyd cyfle i glywed Chroma, Mellt, Wigwam a'r Sybs. Rydym yn ddiolchgar iawn i Morgan Roberts am gydlyn y trefniadau Ffiliffest 2018 tra roedd Bethan Jones-Ollerton ar gyfnod mamolaeth. Erbyn hyn mae Ffiliffest yn uchafbwynt yn ystod y flwyddyn i'r Fenter ac i'n partneriaid ac yn cynnig cyfle ardderchog i ddathlu Cymreictod y sir ac i ddangos yr amrywiaeth o gyfleoedd sy'n bodoli'n lleol i ddefnyddio'r Gymraeg. Edrychwn ymlaen at ddatblygu'r wyl ymhellach y flwyddyn nesaf.



## Ras yr Iaith 2018

Yn Ngorffennaf 2018, bu Ras yr Iaith, yr unig ras drwy'r byd sy'n hyrwyddo'r iaith Gymraeg, yn ehangu ac yn gorffen yn nhref Caerffili. Aeth y Ras, y trydydd ers ei sefydlu, i ardaloedd newydd o Gymru gan ymweld am y tro cyntaf â'r gogledd Ddwyrain a'r de Ddwyrain. Cychwynnodd y Ras yn Wrecsam ar Orffennaf y 4ydd a gorffenodd yng Nghaerffili ar Orffennaf y 6ed gan gynnig tridiau llawn o rhedeg, sŵn, egni a mwynhâd tra'n dathlu'r Gymraeg mewn cymunedau ar draws Cymru yn cynnwys Llanrwst, Bangor, Porthaethwy, Machynlleth, Aberystwyth,

Llanbedr Pont Steffan, Hwlfordd, Caerfyrddin, Llanelli, Rhydaman, Ystradgynlais, Clydach, Pontardawe a Porthcawl.

Mae mudiadau amrywiol ar draws Cymru hefyd yn elwa o'r Ras gan y bydd y nawdd a dderbynir ar gyfer ei gynnal yn cael ei ddosbarthu ar ffurf grantiau. Fel Menter Caerffili, roeddym yn falch iawn i gynnal cymal olaf y ras gan gynnal dathliadau o amgylch Canolfan Ymwelwyr Caerffili ar gyfer yr holl redwyr a gymerodd rhan. Edrychwn ymlaen at gynnal cymal ar gyfer y ras nesaf yn 2020.



## Gwersi Oedolion

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf datblygwyd rhaglen amrywiol o gyfleoedd i oedolion i ddysgu sgiliau newydd trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhalwyd amrywiaeth o gyrsiau blasu gan gynnwys sesiynau coginio, argraffu lino, crefftâu cartref a threfnu blodau. Yn dilyn llwyddiant nifer o'r sesiynau blasu, cynhalwyd cwrs trefnu blodau a choginio wythnosol. Yn ystod y flwyddyn mynchodd dros 80 o oedolion ein rhaglen o ddosbarthiadau. Rydym yn parhau i ymgynghori ag oedolion er mwyn canfod beth yw ei gofynion am ddosbarthiadau pellach.

## Clwb Cerdded Menter Caerffili

Mae'r Clwb Cerdded wedi datblygu i fod yn un o lwyddiannau mwyaf Prosiect Llais ac erbyn hyn mae grŵp ffyddlon o oedolion lleol yn cwrdd yn wythnosol ar fore dydd Mercher i gerdded mewn mannau amrywiol ar draws y sir. Y grŵp ei hun sy'n cynllunio'r teithiau ac yn cwrdd yn swyddfa'r Fenter er mwyn penderfynu ar y rhaglen ar gyfer y misoedd i ddod. Morgan Roberts, ein Swyddog Prosiect Llais sy'n gyfrifol am sefydlu'r grŵp a'i arwain ond mae nifer o unigolion o fewn y grŵp hefyd yn arwain yn ogystal ag un o'r Swyddogion Adran Parciau a Chefn Gwlad y Cyngor, sydd wedi dysgu Cymraeg ac yn awyddus i weld cyfleoedd fel hyn yn datblygu.



## Gwirfoddoli gyda Menter Caerffili

Mae denu a chefnogi gwirfoddolwyr wedi bod yn rhan annatod o waith y Fenter ers ei sefydlu. Mae cefnogaeth ac ymroddiad gwirfoddolwyr yn ein galluogi ni i ddarparu trawstoriad eang o gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, mae'r cyfle i wirfoddoli gyda'r Fenter trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad allweddol wrth ddysgu'r Gymraeg, rhannu sgiliau neu fanteisio ar gyfleoedd newydd o fewn y gymuned i ddefnyddio eich Cymraeg. Eleni unwaith eto, buom yn ffodus i sicrhau cyllid trwy Gronfa Allweddol Gymunedol

Cyngor B.S.Caerffili er mwyn ein cynorthwyo ni i ddenu a chefnogi gwirfoddolwyr. Eleni, mae grŵp o ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni wedi dod atom i wirfoddoli o fewn ein gwasanaeth gofal plant ac mae eu cyfraniad wedi bod yn werthfawr tu hwnt ac mae'r adborth gan y gwirfoddolwyr eu hunain wedi bod yn gadarnhaol tu hwnt. Mawr obeithiwn y gallwn barhau i ddatblygu'r cyfleoedd hyn a sicrhau fod cyfleoedd newydd i wirfoddolwyr o bob oedran i wirfoddoli trwy gyfrwng y Gymraeg yn lleol a derbyn cydnabyddiaeth am y cyfraniad hwn.

# Grŵp Dawns Di-ri

Parhaodd ein sesiwn dawns wythnosol i blant y Cyfnod Sylfaen yng Nghwlwb Bowlio Islwyn. Mae'r grŵp wedi mynd o nerth i nerth dan arweiniad ein tiwtor brwdrydig Tamsin gyda tua 10 o blant bach yn mynchy u yn wythnosol i gael hwyl yn dawsio. Bu'r grŵp yn perfformio yn ein Ffair Nadolig ac yn Ffiliffest 2018 ac yn mwynhau cwrdd â ffrindiau newydd o ardaloedd gwahanol y sir sy'n siarad Cymraeg.



## Gweithgareddau Digidol

Yn ystod y flwyddyn roeddem yn awyddus iawn i ddatblygu ymhellach y cyfleoedd a sefydlwyd i blant, pobl ifanc ac oedolion i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol trwy gyfrwng y Gymraeg. Daeth yn glir o'n gwaith ymgynghori ac ymchwil pellach bod prinder o gynnwys cyfrwng Cymraeg ar-lein yn ogystal â diffyg rhwydweithiau ar-lein cyfrwng Cymraeg, sianeli a chyfleoedd cyfrwng Cymraeg lleol a oedd yn rhoi cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau digidol. Yn ystod y cyfnod, cynhalwyd nifer o weithdai a sesiynau gan gynnwys gweithgareddau gemau retro, animeiddio lego,

adeiladu cyfrifiadur a llawer mwy. Yn ogystal, datblygwyd ein sianeli YouTube ymhellach ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfa oedd sydd bellach yn cynnig cyfle i bobl leol rhannu profiadau, dilyn diddordebau a chyfathrebu gyda siaradwyr a dysgwyr Cymraeg eraill. Rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol iawn gan bobl sydd wedi cymryd rhan yn y prosiect, gan gynnwys pobl ifanc sydd ag anghenion arbennig ac yn elwa'n fawr o'r profiad. Ein gobaith yw sicrhau cyllid hirdymor ar gyfer y gwaith dylanwadol hwn er mwyn sicrhau fod cyfleoedd lleol a chyffrous i ddefnyddio'r Gymraeg ar-lein.



## Y Siarter Iaith

Ebyn hyn, mae'r Siarter Iaith yn weithredol ar draws ysgolion gynradd cyfrwng Cymraeg y Sir gyda'r 11 ysgol gynradd wedi ymrwymo i ddilyn y Siarter a'i egwyddorion. Bwriad y Siarter yw cefnogi disgyblion ac ysgolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod y diwrnod ysgol, wrth chwarae ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol. Mae gan bob ysgol targedau er mwyn cyrraedd lefelau Efydd, Arian ac Aur y Siarter ac mae modd mesur effaith y Siarter ar ddefnydd iaith disgyblion yn flynyddol. Mae gan y Fenter rôl allweddol wrth gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio'r Gymraeg tu allan i'r ysgol ac yn y gymuned. Er mwyn cefnogi'r ysgolion gyda'r gwaith hwn, mae Morgan Roberts wedi bod wrthi'n cynnal gweithdai a chlybiau digidol yn rhai o'r ysgolion. Mae'r gwaith hwn wedi cefnogi'n gwaith o ddatblygu cymuned cyfrwng Cymraeg ar-lein gan annog plant a

phobl ifanc i greu cynnwys ar-lein yn Gymraeg a rhwydweithio yn Gymraeg ar-lein. Yn ogystal, buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r mudiad Head4Arts er mwyn gweithredu prosiect darllen cyffrous newydd a oedd yn plethu llenyddiaeth cyfrwng Cymraeg gyda technoleg. Bu ein swyddogion Bethan Jones-Ollerton a Morgan Roberts yn gweithio gyda tair ysgol Gymraeg, sef Ysgol Gymraeg Trelyn, Ysgol Gymraeg Penalltau ac Ysgol Cwm Gwyddon ar brosiect Twlletteratura yn ddefnyddio'r dechnoleg Betwyl er mwyn galluogi plant ysgol i ddarllen llyfrau Cymraeg yn ddigidol gan rhannu sylwadau a chwestiynau â phlant mewn ysgolion Cymraeg eraill. Bu'r plant hefyd yn ran o'r broses o gyfieithu llyfr i'r Gymraeg. Roeddem yn falch iawn o gydweithio gyda Head4Arts ac edrychwn ymlaen at weld prosiectau newydd eraill yn datblygu.

# Splash a Chân

**Y**n ystod y flwyddyn, bu ein Swyddog Datblygu, Bethan Jones-Ollerton yn datblygu sesiwn newydd ar gyfer rhieni a phlant ifanc ym mhwll nofio Canolfan Hamdden Caerffili. Datblygwyd y sesiwn mewn ymateb i brinder cyfleoedd yn lleol i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant ifanc. Bu'r sesiwn yn boblogaidd yn fuan iawn a chefnogwyd un o'r rhieni a oedd yn mynchu i arwain y sesiwn fel gwirfoddolwr ac yna fel arweinydd swyddogol y sesiwn. Mae'r adborth gan rieni yn gadarnhaol iawn ac rydym yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo'r sesiwn mewn partneriaeth ag Adran Hamdden Cyngor B.S.Caerffili. Ar gyfartaledd, mae tua 20 teulul yn mynchu'n wythnosol. Y gobaith yw y gallwn ddatblygu sesiwn tebyg mewn ardal arall o'r Sir dros y flwyddyn nesaf.



## Sgwad Sgwennu

**M**ae Sgwad Sgwennu'r Fenter yn mynd o nerth i nerth erbyn hyn. Dechreuodd y Sgwad yn ystod tymor yr Hydref 2012 er mwyn sicrhau fod cyfleoedd cyfrwng Cymraeg gan blant y sir i gymryd rhan mewn sesiynau ysgrifennu creadigol gydag awduron a beirdd enwocaf Cymru. Cynhelir y Sgwad unwaith y tymor gyda rhwng 15-20 o blant yn mynchu. Partneriaeth rhwng y Fenter ac Adran Datblygu'r

Celfyddydau o fewn Cyngor B.S.Caerffili yw'r Sgwad gyda'r Fenter yn gyfrifol am drefnu'r Sgwad a'r Adran Datblygu'r Celfyddydau yn ariannu'r costau. Yn ystod y flwyddyn croesawyd sawl bardd ac awdur blaenllaw i arwain y Sgwad.




## Canadram Performing Group

**B**uom yn gweithio gydag Adran Datblygu Celfyddydau Cyngor Caerffili er mwyn darparu sesiynau perfformio i blant oedran cynradd. Erbyn hyn mae'r grŵp, sef Canadram wedi datblygu'n llwyddiannus iawn ac yn cwrdd yn wythnosol ym Memo Trecelyn dan arweiniad dau o diwtoriaid brwdfrydig iawn. Bu Canadram yn perfformio yn Ffilifest ac y nein Ffair Nadolig Gobeithiwn yn fawr y gallwn barhau i ddatblygu'r cyfleoedd hyn ymhellach er mwyn sicrhau fod cyfleoedd lleol i blant a phobl ifanc i fwynhau'r celfyddydau a datblygu sgiliau perfformio trwy gyfrwng y Gymraeg.



# Y Ffordd I Ddwylieithrwydd ar gyfer y Sector Gofal Plant

Yn ogystal â darpariaeth gofal y Fenter a nodir uchod, bu Menter laith yn llwyddiannus wrth ennill cytundeb oddi wrth Gyngor B.S.Caerffili ym Mawrth 2018 i barhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor i drawstoriad o leoliadau gofal plant i gynyddu eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae Menter Caerffili yn cyflogi Swyddog Cefnogi er mwyn gweithredu'r cytundeb hwn sy'n cynnig pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth i ofalwyr plant, cylchoedd meithrin a meithrinfeidd preifat. Yn ystod y flwyddyn mae'r Swyddog, Rhiannon Tucker wedi parhau i weithredu ein cynllun ar gyfer darpariaethau sydd am gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg sef, 'Y Ffordd I Ddwylieithrwydd'. Mae'r cynllun yn cynnig cyfle i amrywiaeth o leoliadau gofal plant i ddatblygu trwy'r cynllun gan gytuno ar dargedau ymarferol er mwyn cynyddu eu defnydd o'r Gymraeg ar draws elfennau o'u gwaith. Bwriedir datblygu'r cynllun ymhellach yn ystod y flwyddyn sydd i ddod gan gfnogi rhagor o ddarpariaethau i fabwysiadu'r cynllun.



## Gweithgareddau Teulu a Phlant

Mae cynnig gweithgareddau i'r teulu cyfan yn flaenoriaeth i'r Fenter ac yn ystod y flwyddyn, darparwyd rhaglen yn arbennig i deuluoedd. Bu'r rhaglen yn cynnwys ein sesiynau chwarae Miri Meithrin yn ystod gwyliau ysgol i rieni a phlant ifanc, picnic yn y parc a gweithdai yn ystod y gwyliau ysgol. Yn ogystal, buom yn cynnal nifer o stondinâu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau gan gynnig gwybodaeth a chyngor ar fanteision magu plant yn ddwylieithog. Cynhaliwyd sgyrsiau gyda dros 180 o rieni. Yn ogystal, cynhaliwyd 6 o weithdai i blant a'u teuluoedd yn ystod gwyliau ysgol gyda dros 145 o deuluoedd yn mynchyu. Roedd y gweithdai hyn yn cynnwys gweithdai celf a chrefft Calan Gaeaf a Phasg, gweithdy crochenwaith, gweithdai animeiddio lego a gweithdai coginio.

## Gweithio gyda Phobl Ifanc

Mae ein darpariaeth leuenctid yn bartneriaeth llwyddiannus tu hwnt rhwng y Fenter, yr Urdd Gwasanaeth leuenctid Cyngor B.S. Caerffili. Canolbwyt y bartneriaeth yw rhaglen waith y Swyddog leuenctid rydym yn cyflogi ac yn cefnogi ar y cyd. Mae'r Swyddog leuenctid, sef Rhiannon Jones mewn cydweithrediad â staff Gwasanaeth leuenctid y Cyngor yn gyfrifol am ddatblygu a darparu Clwb leuenctid cyfrwng Cymraeg yn y YMCA ym Margod. Erbyn hyn mae dros 40 o bobl ifanc o ardaloedd amrywiol y sir yn mynchyu. Yn ychwanegol i'r ddarpariaeth hon trefnwyd rhaglen o weithgareddau amrywiol gan gynnwys teithiau, triplau, chwaraeon, gweithdai, sesiynau gwybodaeth a chyfle i gymryd rhan mewn ymgynghoriadau.



**"Erbyn hyn mae dros 40 o bobl ifanc o ardaloedd amrywiol y sir yn mynchyu"**

# Cynlluniau Gofal Plant Menter Iaith Sir Caerffili



**M**enter iaith Sir Caerffili yw'r unig ddarparwr o Gynlluniau Gofal tu allan i'r ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg yn Sir Caerffili.

## **Mae'r 8 lleoliad sy'n cynnwys 20 cynllun, yn llwyddiannus tu hwnt, gyda niferoedd sy'n mynchu yn cynyddu bob tymor.**

Ar gyfartaledd mae 720 o blant yr wythnos yn mynchu'r Cynlluniau ac rydym yn cynnig dros 60,000 o lefydd gofal plant y flwyddyn. Rydym yn cael ein harolygu yn fanwl gan Arolygiaeth Gofal Cymru ac yn sicrhau ein bod yn cyflogi staff cymwysedig a brwd frydig! Mae'r ddarpariaeth yn darparu cyfle allweddol i gynnig gwaith cyfrwng Cymraeg i siaradwyr Cymraeg y Sir ac yn sicrhau fod pobl ifanc sy'n ennill cymhwyster yn y maes yn medru sicrhau gwaith lleol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar draws y cynlluniau hyn, cyflogir dros 70 o weithwyr gofal plant, rhan amser a llawn amser. Erbyn hyn ceir amrywiaeth o ofal cyn ysgol, ar ôl ysgol a gofal gwyliau yn y 9 safle hyn. Yn ogystal, yn dilyn ein perthynas llwyddiannus gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir, rydym yn darparu chwe chynllun gofal cofleidiol i gwrdd â'r angen am ofal ar gyfer y plant hynny sy'n mynchu dosbarthiadau meithrin rhan amser. Mae'r cynlluniau hyn yn mynd o nerth i nerth. Mae cynlluniau pellach ar y gweill ar gyfer cynlluniau gofal ar ôl ysgol a

gwyliau newydd. Rydym yn ddyledus iawn i'n Rheolwr Busnes Gofal Plant, Tracy Reeves a'n Swyddogion Cefnogi Gofal Plant Jayne Nowazek a Rhiannon Tucker am eu gwaith wrth gefnogi ein staff gofal a sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth o ansawdd uchel, trwy gyfrwng y Gymraeg i deuluoedd y Sir. Yn ystod mis Ionawr 2019, croesawyd aelod ychwanegol i'n tîm gofal plant, sef Maria Lees. Mae Maria wedi bod yn gweithio yn ein darpariaethau ar safle Ysgol y Castell am nifer o flynyddoedd ac erbyn hyn wedi derbyn swydd gyda ni fel Swyddog Cefnogi. Fe fydd Maria, ar y cyd â'r swyddogion eraill yn cefnogi ein darpariaethau ar draws y Sir.

Yn ystod y flwyddyn mae ein darpariaeth wedi bod yn rhan o raglen gyffrous newydd Llywodraeth Cymru sef y Cynnig Gofal Plant i Gymru. Mae'r rhaglen yn cynnig 30 awr o ofal plant am ddim i deuluoedd gyda rhieni'n gweithio ac sy'n cwrdd â mein prawf penodol. Erbyn hyn mae ein darpariaethau o fewn ardal Pengam, Abercarn, Ystrad Mynach a Chaerffili yn rhan o'r rhaglen sydd wedi cynnig cyfle newydd i rieni sy'n gweithio derbyn cymorth ariannol gyda'u costau gofal plant ac mae ein darpariaethau cyfrwng Cymraeg wedi bod yn rhan allweddol o ddatblygu'r rhaglen yn llwyddiannus yn y Sir.

# Rhagair



Ar ddiwedd blwyddyn brysur, gyffrous arall, pleser yw cyflwyno Adroddiad Blynnyddol Menter Iaith Sir Caerffili am y flwyddyn 2018-19. Ni ellid ymgymryd â'r her oni bai am deyrngarwch ac ymrwymiad staff, swyddogion ac aelodau'r Pwyllgor Rheoli, gwirfoddolwyr a phartneriaid fel ei gilydd. Bu nifer o ddatblygiadau cyffrous yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a hynny ar sail cynlluniau o'r newydd, nawdd ychwanegol yn ogystal ag ymateb i ofynion cymunedau lleol. Llwyddodd y Fenter i ddenu dros £800,000 o gyllid tuag at wasanaethau cyfrwng Cymraeg i mewn i'r Sir yn ystod y flwyddyn sy'n cynnwys grantiau a chytundeb gan Gyngor B.S.Caerffili, Llywodraeth Cymru, GAVO, Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a gyllidwyd gan

Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd o dan Gronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a ffioedd gofal plant. Manteisiwyd ar weithio mewn partneriaeth, a hynny mewn perthynas â nifer o fudiadau a sefydliadau yn lleol, sirol a chenedlaethol. Yn ogystal, llwyddodd y Fenter i ddatblygu gwasanaethau o ansawdd uchel yn sgil cefnogaeth ariannol oddi wrth nifer o gyllidwyr amrywiol. Lansiwyd nifer o gynlluniau a phrosiectau cyffrous yn ystod y flwyddyn. Mae ein dyled ni yn fawr i aelodau Pwyllgor Rheoli Menter Iaith Sir Caerffili am eu hymroddiad a'u harweiniad parhaol ac am eu cadernid a'u cefnogaeth, i dîm o staff brwd frydig am eu cydweithrediad ac i'r llu o wirfoddolwyr gweithgar am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.



## Staff

Lowri Jones	Prif Swyddog
Debbie Thomas	Swyddog Gweinyddol a Chyllid
Jayne Nowaczek	Swyddog Cefnogi Gofal Plant
Morgan Roberts	Swyddog Datblygu Digidol
Huw Rowlands	Swyddog y Gymraeg Mewn Busnes
Tracy Reeves	Swyddog Gwasanaethau Plant a Teuluoedd
Bethan Jones-Ollerton	Swyddog Datblygu Cymunedol
Rhiannon Tucker	Swyddog Cefnogi Iaith – Gofal Plant
Rhiannon Jones	Swyddog leuenctid
Maria Lees	Childcare Support Officer

## Bwrdd Rheoli

Dai Thomas	Cadeirydd
Gareth James	Trysorydd
Anwen Cullinane	Ysgrifenyddes y Bwrdd
Lowri Jones	Ysgrifennydd y Cwmni
Gwyneth Davies	
Jobe Bruzas	
Samantha Jarrett	
Jeff Grenfell	
Maureen Potter	



[mentercaerffili.cymru](http://mentercaerffili.cymru)

# MENTER IAITH SIR CAERFFILI

2018 - 19

**Cynyddu defnydd o'r Gymraeg ar draws  
cymunedau Sir Caerffili**

